

Golygu Cyfieithiad Deallusrwydd Artiffisial (DA) o Ddarn Gosod

Mae'r dasg hon wedi cael ei hychwanegu at yr arholiad ar lefel Aelodaeth Gyflawn i adlewyrchu'r pwysau cynyddol sydd ar gyfieithwyr i adolygu cyfieithiadau o'r fath yn eu gwaith beunyddiol, ac i'w helpu i feithrin y grefft o olygu'r cyfryw gyfieithiadau yn hyderus. Nod defnyddio DA yn y cyswllt hwn yw arbed amser ac arian, a gwaith y golygydd yw sicrhau bod pob brawddeg yn y cyfieithiad yn bodloni'r pedair elfen sy'n feini prawf ar gyfer safonau aelodaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, pa ddarn prawf bynnag sydd dan sylw.

Y cyngor, felly, yw mynd trwy'r darn fesul brawddeg, yn gwirio'r ystyr, y cywair, y gystrawen a'r cywirdeb. Os yw brawddeg yn bodloni o ran y pedair elfen, nid oes angen ei newid, a gallwch symud ymlaen trwy'r darn i chwilio am y pethau y mae angen eu newid.

DS: Ni ddylech addasu'r gwaith i greu'r cyfieithiad byddech chi wedi'i gyflwyno petaech wedi dechrau o ddim - ceisiwch fod mor wrthrychol â phosib, a barnu yn ôl y pedair elfen, yn hytrach na gwastraffu amser yn newid pethau fel eu bod yn debycach i'r hyn y byddech chi wedi'i ddewis.

Y DARN GWREIDDIOL

Michael Kenna has been creating photographs for 50 years. During that time he has stood in the dark, often alone, often in the cold, often for hours... waiting. Not for something to happen, but for everything to stop happening.

His camera sits on a tripod. The shutter stays open. The world blurs and dissolves. And what remains, stripped of its noise and clutter, is something closer to feeling than fact. This is not how most of us create images. And that, largely, is why Kenna's photography is unique.

His latest book is ostensibly a beautiful collaboration with writer Pico Iyer. But it also functions as a clear, sustained argument for restraint. For emptiness. For the act of taking less out of a frame, not more.

Kenna's technique is deceptively simple. The long exposure is the key. It smooths water into silk, dissolves clouds into pale washes, erases the tourists from the piazza. What you're left with is little more than architecture, light and time.

The 60-odd duotone images in this book span five decades and five continents. A fogbound canal in Venice becomes ancient and melancholy. A line of trees in Hokkaido dissolves into white. These aren't places you'd recognise from a travel brochure, even if you've been there. They're places as they exist when no one is looking. Or, perhaps, when someone is looking for a very long time.

For those accustomed to shooting up to ten frames a second, this method demands the opposite. Arrive early, set up slowly, wait longer than feels comfortable. Then, shoot fewer frames than feels safe. The discipline is its own education.

Overall, this book is an object lesson in black-and-white composition. Kenna builds his images around the same principles photographers have used for over a century, but he applies them with unusual rigour.

**CYFIEITHIAD DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL O'R DARN GYDA SYLWADAU
FESUL PARAGRAFF YNGHYLCH Y PETHAU Y MAE ANGEN EU NEWID I'W
OLYGU'N LLWYDDIANNUS**

Mae Michael Kenna wedi bod yn creu ffotograffau ers 50 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi sefyll yn y tywyllwch, yn aml ar ei ben ei hun, yn aml yn yr oerfel, yn aml am oriau... yn aros. Nid **am i** rywbeth ddigwydd, ond **am i** bopeth **roi'r gorau i ddigwydd**.

Nid yw'r patrwm 'am i' yn gystrawennol gadarn, ac mae angen ei newid am rywbeth sy'n swnio'n naturiol yn y Gymraeg. Gellid yn syml hepgor y ddau 'am', gan mai arddull newyddiadurol sydd yma, neu gellid dewis ailadrodd yr 'aros', a dweud 'Nid aros i rywbeth ddigwydd...'

Nid yw 'rhoi'r gorau i ddigwydd' yn taro deuddeg o ran cywair – mwy naturiol yn y fan hon fyddai rhywbeth fel 'aros i bopeth orffen digwydd'.

Mae ei gamera yn eistedd ar **driphod**. Mae'r caead yn aros ar agor. Mae'r byd yn pylu ac yn toddi. **A'r hyn sy'n weddill, wedi ei ddadstripio o'i swm a'i annibendod, yw rhywbeth sy'n nes at deimlad nag at ffaith.** Nid dyma sut mae'r rhan fwyaf ohonom yn creu delweddau. A dyna, i raddau helaeth, pam mae ffotograffiaeth Kenna yn unigryw.

Gellid newydd hyn i 'drybedd', neu ddefnyddio'r Cymreigiad cyffredin 'treipod'. Mae 'dadstripio' yn fenthyciad hyll, ac mae'r gystrawen yn y frawddeg hon hefyd braidd yn drwsogl – cliriach a mwy uniongyrchol fuasai rhywbeth fel: 'Ac ar ôl tynnu'r holl swm ac annibendod i ffwrdd, mae'r hyn sy'n weddill yn debycach i deimlad na ffaith.'

Mae ei lyfr diweddaraf yn **gydweithrediad** hardd **ar yr wyneb** gyda'r awdur Pico Iyer. Ond mae hefyd yn **gweithredu** fel dadl glir a **pharhaus** dros **gymedroli**. Dros **wagder**. Dros y weithred o gymryd llai allan o ffrâm, nid mwy.

Mae lleoliad 'ar yr wyneb' yn y frawddeg gyntaf yn taro'r glust yn chwithig iawn. Byddai'n fwy priodol defnyddio hynny ar ddechrau'r frawddeg. Nid yw gydweithrediad yn argyhoeddi'n llwyr chwaith. Mwy naturiol fyddai rhywbeth fel: 'Ar yr wyneb mae ei lyfr diweddaraf yn enghraifft hardd o gydweithio â'r awdur Pico Iyer'. I osgoi 'gweithredu' a 'gweithred' mor agos at ei gilydd, byddwn i'n argymhell rhywbeth fel 'Ond mae hefyd yn cyflwyno dadl glir a chyson dros ymatal. Dros wacter (mae angen cywiro'r sillafiad). Dros y weithred o...

Mae techneg Kenna yn syml ond yn gamarweiniol felly. Y datguddiad hir yw'r allwedd. Mae'n llyfnhau dŵr yn sidan, yn toddi cymylau yn olchiadau golau, yn dileu'r twristiaid o'r piazza. **Yr hyn sy'n weddill yw prin mwy na phensaernïaeth, golau ac amser.**

Mae'r frawddeg gyntaf yn drwsogl – gwell fyddai: Mae techneg Kenna yn dwyllodrus o syml. Mae'r ail frawddeg yn glynu'n rhy agos at y gwreiddiol, a gwell fyddai newid y drefn yn y Gymraeg, e.e. 'Yr elfen allweddol yw'r...'

Mae cystrawen y frawddeg olaf eto yn drwsogl, ac nid yw'n argyhoeddi'r darlennydd fel brawddeg Gymraeg wreiddiol. Mae sawl posibilrwydd yma, e.e. Nid oes braid dim ond pensaernïaeth, golau ac amser yn weddill.

Mae'r tua 60 o ddelweddau du-a-gwyn deu-dôn yn y llyfr hwn yn ymestyn dros bum degawd a phum cyfandir. Mae camlas **wedi'i hamgylchynu** gan niwl yn Fenis yn troi'n hynafol ac yn felancolaidd. Mae rhes o goed yn Hokkaido yn **toddi i wyn.** **Nid dyma leoedd y byddech yn eu hadnabod o lyfryn teithio, hyd yn oed os ydych wedi bod yno.** Dyma leoedd fel y maent pan nad oes neb yn edrych. Neu, efallai, pan fo rhywun yn edrych am amser hir iawn.

Yma eto mae'r frawddeg gyntaf yn glynu'n rhy agos at y gwreiddiol, ac mae angen addasu er mwyn cyfleu'r un ystyr mewn modd sy'n llifo'n naturiol. Un posibilrwydd fyddai: 'Ceir rhyw 60 o ddelweddau deuliw yn y llyfr hwn, sy'n cwmpasu pum degawd a phum cyfandir'.

Byddai dewis cryfach yn dda am 'fogbound', er nad yw hynny'n hanfodol. Nid yw 'toddi i wyn' yn taro'r glust yn naturiol yn Gymraeg. 'toddi i'r gwynder' efallai neu 'toddi'n wyn'.

Mae angen addasu'r pwyslais yn y frawddeg nesaf. 'Nid lleoedd yw'r rhain y byddech..., hyd yn oed os buoch yno'.

I'r rhai sydd wedi arfer tynnu hyd at ddeg **llun** yr eiliad, mae'r dull hwn yn mynnu'r gwrthwyneb. Cyrraedd yn gynnar, gosod yn araf, aros yn hirach nag sy'n teimlo'n gyfforddus. Yna, tynnu llai o **luniau** nag sy'n teimlo'n ddiogel. **Mae'r ddisgyblaeth ei hun yn addysg.**

Gellir derbyn 'llun' yma, ond byddai 'ffrâm' yn fwy manwl gywir.

Byddai 'Mae'r ddisgyblaeth yn addysg ynddi'i hun' yn taro'r glust yn fwy naturiol Gymreig o ran y frawddeg olaf.

Yn gyffredinol, mae'r llyfr hwn yn **wers wrthrychol** mewn cyfansoddiad du-a-gwyn. **Mae Kenna yn adeiladu ei ddelweddau o amgylch yr un egwyddorion y mae ffotograffwyr wedi'u defnyddio ers dros ganrif, ond mae'n eu cymhwyso gyda disgyblaeth anarferol.**

Byddai rhywbeth llai llythrennol yn fwy priodol yma, e.e. 'yn dangos yn union sut mae cyfansoddi mewn du a gwyn'.

Eto, byddai'r ail frawddeg yn llifo'n well o newid y drefn, e.e. Mae Kenna'n dilyn yr un egwyddorion ag y mae ffotograffwyr wedi'u defnyddio ers dros ganrif wrth saernïo'i ddelweddau, ond mae'n eu cymhwyso â thrylwyredd anarferol.

Sylw Clo

Mae'n bosib iawn mai un o'r pethau fydd yn eich taro yw bod nifer o frawddegau lle nad oes angen addasu o gwbl. Ond wrth olygu gwaith Deallusrwydd Artiffisial

i'r Gymraeg, mae angen bod yn arbennig o effro i'r duedd i gyfieithu'n rhy llythrennol, a hefyd i ddilyn trefn geiriau'r gwreiddiol yn ormodol. Mae'n syniad da 'gwrando' ar bob brawddeg unigol i weld a ydynt yn taro'r glust yn chwithig.